# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad i Senedd Cymru

## Ar gyfer Etholaeth **Sir Gaerfyrddin**

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelodau i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Sir Gaerfyrddin.

2. Gellir cael papurau enwebu gan swyddfa'r Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP, electronig drwy enwebiadau@sirgar.gov.uk neu ar wefan y Comisiwn Etholiadol https://www.electoralcommission.org.uk/cy/canllawiau-i ymgeiswyr-ac-asiantau-yn-etholiadaur-senedd

3. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) ond heb fod yn hwyrach na 4pm **ddydd Iau 9 Ebrill 2026,** neu'n electronig fel y nodir yn y datganiad isod ynghylch cyflwyno papurau enwebu'n electronig, ond heb fod yn hwyrach na 4pm **ddydd Iau 9 Ebrill 2026.**

4. Rhaid gwneud apwyntiadau os ydych yn dewis cyflwyno'r papurau enwebu wyneb yn wyneb. Gellir trefnu apwyntiadau drwy ffonio 01267 228889 neu drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol enwebiadau@sirgar.gov.uk.

5. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais ar **Dydd Iau 7 Mai 2026.**

6. Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos ar **Dydd Llun 20 Ebrill 2026**. Gellir cyflwyno cais ar-lein: **https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

7. Gellir talu'r blaendal o £500 fesul ymgeisydd unigol neu flaendal o £500 ar gyfer yr ymgeisydd cyntaf ar restr y blaid, a £200 ar gyfer pob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar restr y blaid, drwy dendr cyfreithiol, cerdyn credyd/debyd, trosglwyddiad BACS neu drwy ddrafft banciwr o ddrôr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig. Cysylltwch â'r Swyddfa Etholiadau ar 01267 228889 am fanylion ar sut i dalu drwy drosglwyddo arian yn electronig

8. Mae'n rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Caerfyddin SA31 1JP erbyn 5pm ar **Dydd Mawrth 21 Ebrill 2026.**

9. Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP erbyn 5pm ar **Dydd Mawrth 28 Ebrill 2026**.

   Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP erbyn 5pm ar **Dydd Iau 7 Mai 2026**.

10. **Datganiad o ddanfoniad electronig**

Rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

- Rhaid cyflwyno papurau enwebu drwy e-bost i enwebiadau@sirgar.gov.uk Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer unrhyw ymholiadau a / neu wiriadau anffurfiol.
- Ni fydd papurau enwebu'n cael eu derbyn os ydynt yn cael eu cyflwyno i gyfeiriad e-bost arall.
- Dylai llinell bwnc y neges e-bost nodi'n glir enw'r blaid gofrestredig neu enw'r ymgeisydd unigol.
- Ar ôl i'r papurau ddod i law, bydd cydnabyddiaeth yn cael ei hanfon drwy e-bost. Ni fydd hyn yn rhoi cadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys.
- Bydd neges e-bost arall yn cael ei hanfon atoch yn cadarnhau bod yr enwebiad yn ddilys neu'n rhoi gwybod os oes unrhyw broblemau â'r wybodaeth a gafodd ei darparu.
- Bydd angen talu'r ernesau priodol cyn cadarnhau bod yr enwebiad wedi'i gadarnhau fel un dilys.
- Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y papurau enwebu'n cael eu cyflwyno a'u cadarnhau fel rhai dilys, erbyn 4pm **ddydd Iau 9 Ebrill 2026** fan bellaf.

Sylwer:
Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel sy'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.
Nid yw derbyniad darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad o'u penderfyniad p'un a yw'r enwebiad yn ddilys ai peidio.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch gydag anfon enwebiadau'n electronig, cysylltwch â Gwasanaethau Etholiadol ar 01267 228889 neu ebost gwasanaethauetholiadol@sirgar.gov.uk

**Dyddiedig: Dydd Llun 23 Mawrth 2026** **Wendy Walters, Swyddog Canlyniadau**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ar Ddydd Llun 23 Mawrth 2026